CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Chwefror 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, C McGregor, G D Williams, A Wyn, E S Williams, A C Jones, C Jones, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Pritchard, D Roberts, W Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng W Vaughan.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.01.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cydgodfan Bws, Talwrn** – Yn anffodus, nid yw'r cwmni lloches wedi cyflwyno'r cais gwaith stryd mewn pryd, nac wedi rhoi digon o amser i'r Clerc archebu goleuadau traffig. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cwmni i drefnu dyddiad arall.
4.2	**Damweiniau Sgwar Talwrn** – Ymateb y Cyngor Sir: "*Nid yw'r gwaith o osod y chevron wedi ei gwblhau eto. Y bwrid gwreiddiol oedd gwneud cais am arian grant i Lywodraeth Cymru i wella diogelwch ar y B5109 fyddai wedi cynnwys ystyriaeth gwelliannau i arwyddion a hefyd yr opsiwn i edrych ar arwyddion fflachio os yw cerbydau yn gôr yrru wrth ddod tuag at groesffordd Talwrn. Yn anffodus nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud cynnig i awdurdodau lleol wneud cais am arian am gynlluniau diogelwch y ffyrdd newydd ar gyfer 2022/23 gan fod y ffynhonnell yma o arian yn cael ei ail gyfeirio ar y cynllun o leihau cyflymder o 30mya i 20mya mewn ardaloedd preswyl.* *Gan nad oes ffynhonnell arian grant ar gael bydd y chevron yn cael ei osod o'r gan ddefnyddio cyllideb gwelliannau traffig y Cyngor Sir ar gyfer 2022/23 fydd ar gael o Ebrill ymlaen"*
	Llofnod……Cadeirydd 15.03.22

	Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn prynu goleuadau terfyn cyflymder sy'n fflachio. Cynhyrchodd y Clerc ddau amcangyfrif yn y cyfarfod a bydd yn awr yn gofyn am ddyfynbris ffurfiol.
4.3	**Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan** – Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol newydd
4.4	**Carthffosiaeth Talwrn** – Ymateb Dwr Cymru: "*Mae gwaith wedi cael ei wneud ar system carffosaieth sydd yn rhedeg yn cau wrth yr pumping station.* *Does dim problem wedi cael ei godi ar ol y gwaith.* *Mae gwaith CCTV wedi cael ei godi , mae darn bach heb ei orffen ond dim problemau wedi cael ei godi"* Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru: *"Dwi newydd siarad efo Gareth Williams y pollution technician efo Dwr Cymru, ac mae o am checkio cwpl o bethau a dod yn ol ataf.* *Dwi'n deall fod yna waith wedi ei wneud i ail selio y manhole yng ngae Mr Williams. Roedd y gwaith yn cynnwys concridio o gwmpas y tu allan i'r siambr o be oeddwn i'n ddeall. Dwi'n deall fod hyn yn golygu fod y manhole wedi ei selio rwan, sy'n gorfodi yr holl ddwr i fynd yn ei flaen i'r orsaf bwmpio. Cyn y gwaith yma mi oedd yna ddwr yn llwyddo i ddianc yn ystod tywydd gwlyb iawn. Deallaf na fu yna broblem ym mis Hydref yn ystod tywydd gwlyb iawn. Roedd hyn yn cael ei gysidro fel llwyddiant.* *Roedd Gareth am checkio os oedd yna fwy o waith CCTV i'w wneud, ac os oedd yna unrhyw waith pellach yn cael ei gynllunio yn y pentref, a'i peidio.* *Mi ddof yn ol atoch os clywaf rhywbeth pellach"* Dywedodd y Cyng E Williams fod yr orsaf bwmpio yn pwmpio allan i ffosydd yn y cae. Does neb yn cwyno am y cae nesaf gan ei fod wedi gordyfu a heb ei ddefnyddio - mae'r gorlif hwn yn mynd i'r afon. Bydd y Clerc yn cyfeirio hyn at Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
4.5	**Mynwent Llanddyfnan (tap)** - Mae'r Clerc wedi siarad gyda Rhys Crewdson eto ac mae wedi cynnig cyflenwi a gosod tap yn rhad ac am ddim
4.6	**Gor-yrru Maenaddwyn** – Ymateb y Cyngor Sir: "*Gallaf gadarnhau bod arolwg cyflymder bellach wedi'i gwblhau ym Maenaddwyn. Cofrestrodd yr arolwg gyflymder pob cerbyd oedd yn mynd heibio 24 awr y dydd am gyfnod o saith diwrnod.* Llofnod…….Cadeirydd 15.03.22

	Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos cyflymder cyfartalog o 30mya, ac ni chofnodwyd un digwyddiad o yrru dros y terfyn cyflymder. *Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am ganlyniadau'r arolwg hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi"* Cytunwyd i dynnu'r eitem oddi ar yr agenda
4.7	**Gor-yrru/lldio Talwrn** - Nid yw'r Clerc eto wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Sgwar Talwrn – gweler 4.2
	Cynllunio
5.2	FPL/2022/29 Llain Sior, Maenaddwyn – dim sylwadau
5.3	FPL/2022/17 Ty Gwyn, Llangwyllog – cefnogi y cais
	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	Cyfoeth Naturiol Cymru – gweler 4.4
6.2	Yr Heddlu - Mae'r Heddlu wedi ymateb gan ddweud eu bod yn hapus i fynychu ein cyfarfodydd ond nad ydynt yn gwneud "Zoom", dim ond "Teams". Bydd y Cyng Dylan Rees yn codi'r mater gyda'r Heddlu
6.3	Dwr Cymru – gweler 4.4
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dosbarthwyr bagiau cwn. Oherwydd bod y Clerc wedi symud i ffwrdd o'r ardal, cynigiodd y Cyng Arfon Wyn ail-lenwi'r bagiau ym maes parcio Llyn Cefni a gwirfoddolodd y Cyng W Vaughan ac E Williams i lenwi peiriannau Talwrn. Bydd y Clerc yn trefnu i gwrdd â nhw i drosglwyddo allweddi a chyflenwadau o fagiau.
8.2	Tyfiant Maes y Coed – Bodlondeb - Mae gwrychoedd yn tyfu dros y palmentydd. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir
8.3	Adolygu llwybrau cyhoeddus – Cynigiodd y Cyng. Eilian Williams gerdded y llwybrau a bydd yn hysbysu'r Clerc pa rai sydd angen sylw. Bydd y Clerc yn anfon cynllun o'r llwybrau ato.
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.22

8.4	Gwahoddiad I PCSO I'r cyfarfod nesaf – gweler 6.2
8.5	Lamp stryd Talwrn rhif 6D ddim yn gweithio – mae'r Clerc wedi cyfeirio y mater at y Cyngor Sir
8.6	Biniau halen yn ardal Talwrn angen ei llenwi - mae'r Clerc wedi cyfeirio y mater at y Cyngor Sir
8.7	Contract torri gwair 2022 – Mae y Clerc wedi derbyn un cais gan Rhys Williams - £1095. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris am gontract 1 flwyddyn
8.8	Cynigodd y Cyng A Wyn ddiolch i'r Cyngor Sir am osod arwyddion ffyrdd yn Llangwyllog
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Llwybrau cyhoeddus
9.2	Enwau lleoedd Cymraeg
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.22